

# Cynllun Corfforaethol 2008 – 2011



**Canolfan Merched y Wawr  
Stryd yr Efail  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1JH**

**Ffôn: 01970 611 661**

**E-Bost: [swyddfa@merchedywawr.com](mailto:swyddfa@merchedywawr.com)  
[canolfan@merchedywawr.com](mailto:canolfan@merchedywawr.com)**

**Y Wê: [www.merchedywawr.com](http://www.merchedywawr.com)**

Rhif Elusen 506789

## CYNNWYS

3. Cyflwyniad
4. Cyfansoddiad
9. Sefyllfa Bresennol y Mudiad gan gynnwys Ystadegau Cymru
10. Hanes Merched y Wawr
12. Merched y Wawr Heddiw
14. Rhestr Canghennau a Chlybiau Gwawr
16. Prif Nôd Hir Dymor Merched y Wawr

### AMCANION 2008 - 2011

#### STRATEGAETH

17. Maes Gweithredu
19. Cynnal a Datblygu'r Ganolfan Genedlaethol
20. Staff a Swyddogion Gwirfoddol (Ymddiriedolwyr)
21. Codi Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg
22. Defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd
22. Creu Partneriaethau gyda Mudiadau eraill
24. Datblygu a darparu cyfleon i ddefnyddio'r Iaith
25. Is Bwyllgorau Cenedlaethol
25. Gweithgareddau
26. Ymchwil a Gwerthuso
28. Nawdd
  
29. ATODIAD 1: DISGRIFIAD SWYDDI
54. ATODIAD 2: ASESIAU RISG
55. ATODIAD 3: HYFFORDDIANT

## CYFLWYNIAD

Ers sefydlu Merched y Wawr ym 1967 y mae'r elusen unigryw hon wedi wynebu sawl sialens dros y blynyddoedd ac y mae yn dal yn un o'r mudiadau sy'n llwyddo i lobio yn effeithiol ar faterion o bwys yn ymwneud a'r iaith Gymraeg a materion yn ymwneud ac iechyd merched yng Nghymru a diwylliant.

Mae Merched y Wawr wedi datblygu llawer ers y dyddiau cynnar ac erbyn hyn y mae Canolfan Genedlaethol yng nghanol tref Aberystwyth. Agorwyd y Ganolfan yn y flwyddyn 2000 trwy garedigrwydd a haelioni'r aelodau a grant loteri. Erbyn heddiw y mae gennym 13 o ranbarthau a dros 6500 o aelodau mewn 250 o ganghennau a chlybiau gwawr.

Yn wahanol i Fudiadau eraill mae'r mudiad yn gweithredu yn gyfan gwbl trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ac yn derbyn ei brif nawdd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae gan y mudiad dros 1000 o swyddogion gwirfoddol ar unrhyw un adeg. Mae ymrwymiad y swyddogion hyn i fynychu pwyllgorau a gweithredu ar ran y mudiad yn rhywbeth yr ydym yn ymfalchïo ynddo.

Dros y blynyddoedd y mae'r staff cyflogedig hefyd wedi cynyddu yn sylweddol a lefel y gwaith yn adlewyrchu'r rheswm dros sicrhau pwysigrwydd cyflogi'r staff yma.

Mae Merched y Wawr erbyn heddiw yn dîm o 6 swyddog datblygu 2 swyddog hyrwyddo clybiau gwawr, gofalwr, swyddog cyllid, swyddog hyrwyddo Cymraeg cymunedol a chyfarwyddwr rhan amser ac un swyddog gweinyddol llawn amser. Mae gennym 9 o ymddiriedolwyr ac un aelod sef golygydd ein cylchgrawn "Y Wawr" sydd heb bleidlais.

Mae gan y mudiad nifer fawr o gysylltiadau, rydym yn gweithio mewn partneriaeth efo ystod eang o sefydliadau, mudiadau ac unigolion. Mae hyn yn ein galluogi i weithredu yn effeithiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Rydym yn hyderus iawn am ddyfodol y mudiad, gan i ni ymgymryd â holiadur i'r holl ganghennau chlybiau yng ngwanwyn 2008 gan dderbyn ymatebion cadarnhaol iawn.

Cyflwynwn y Cynllun Corfforaethol hwn i'ch sylw am y tair blynedd nesaf 2008 - 2011 ac rydym yn awyddus i chi gysylltu â ni os byddwch angen trafod unrhyw fanylion ymhellach.

## CYFANSODDIAD MERCHED Y WAWR

1. Adwaenir y Mudiad wrth yr enw Merched y Wawr a elwir o hyn ymlaen Y Mudiad.

### 2. AMCANION

I hybu unrhyw achos er budd merched yng Nghymru a ystyrir trwy gyfraith yn elusennol ar hyn o bryd neu ar unrhyw adeg yn y dyfodol, ac yn arbennig i rymuso addysg gyhoeddus ac i hyrwyddo diwylliant Cymreig, addysg a'r celfyddydau yng Nghymru trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd y Mudiad yn fudiad gwladgarol yn amhleidiol yn boliticaidd ac yn anenwadol yn grefyddol.

Er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn gall Y Mudiad :

i) godi arian a gwahodd a derbyn cyfraniadau, cyn belled ag y bydd y Mudiad yn cadw at ofynion y gyfraith;

ii) dderbyn rhoddion a benthyg neu godi arian mewn modd a gaiff ei ystyried yn dderbyniol gan y Mudiad yn ddarostyngedig i dderbyn unrhyw ganiatâd sydd yn ofynnol trwy gyfraith;

iii) brynu, gymryd trwy les neu gyfnewid unrhyw eiddo sydd ei angen er mwyn gweithredu'r amcanion gan gynnal a darparu offer i alluogi defnydd ohono;

iv) yn ddarostyngedig i dderbyn unrhyw ganiatâd sydd yn ofynnol trwy gyfraith werthu, gwaredu trwy les holl neu unrhyw ddarn o eiddo'r elusen;

v) yn ddarostyngedig i unrhyw ganiatâd sydd yn ofynnol trwy gyfraith fenthyg arian a gosod cyfrifoldeb ad-daliadau'r benthyciadau hynny ar holl neu unrhyw ddarn o eiddo'r elusen;

vi) gyflogi staff (na fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Llywio) pan fo angen, er mwyn gweithredu'r amcanion yn gywir a gwneud yr holl drefniadau addas ac angenrheidiol gogyfer a thalu pensiynau a thâl henoed i'r staff a'u dibynyddion;

vii) gydweithio gydag elusennau, cyrff gwirfoddol a chyrff statudol eraill sydd yn gweithio tuag at amcanion y Mudiad neu sydd ag amcanion elusennol cyffelyb gan gyfnewid gwybodaeth a chynngor;

viii) sefydlu neu gynnal unrhyw ymddiriedolaeth elusennol, cymdeithas neu sefydliad a ffurfiwyd ar gyfer yr holl neu unrhyw un o'r amcanion;

ix) drefnu a darparu neu gyd-drefnu a chyd-darparu ar gyfer cynnal arddangosfeydd, cyfarfodydd, darlithoedd, dosbarthiadau, seminarau, cystadlaethau, penwythnosau preswyl, cyrsiau hyfforddi neu weithgareddau eraill;

x) gyhoeddi llyfrau, pamffledi, adroddiadau, taflenni, cylchgronau, ffilmiau a deunyddiau addysgiadol eraill;

xi) fuddsoddi arian y Mudiad nad oes ei angen yn gyfredol i weithredu'r amcanion, mewn neu ar unrhyw fuddsoddiad, gwarant neu eiddo a gaiff ei ystyried yn deilwng, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau angenrheidiol trwy gyfraith;

xii) agor a defnyddio cyfrif banc ac unrhyw adnoddau bancio yn enw'r Mudiad;

xiii) yswirio a threfnu yswiriant ar gyfer ac er mwyn eithrio swyddogion, gweision, gweithwyr gwirfoddol ac aelodau oddi wrth ac yn erbyn pob perygl y gellid yn briodol a rhesymol ei ragfynegi ac a allasai ddigwydd iddynt wrth gyflawni dyletswyddau a ystyrir yn deilwng;

xiv) gyflawni unrhyw weithred neu weithgaredd arall cyfreithiol angenrheidiol i bwrpas gweithredu'r amcanion.

### 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth yn agored i ferched sydd yn cefnogi amcanion y Mudiad. Bydd tâl aelodaeth blynyddol yn daladwy i drysorydd y gangen neu glwb lleol. Bydd y Pwyllgor

Llywio o bryd i'w gilydd yn penderfynu'r modd y rhennir y tâl aelodaeth rhwng y gangen leol a'r rhannau eraill o'r Mudiad.

#### 4. CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR LLEOL

Bydd y gangen neu glwb lleol yn rhydd i drefnu eu gweithgareddau eu hunain, i ethol swyddogion ac aelodau eu pwyllgorau, i lunio rhaglen yn ôl dymuniadau a diddordebau'r aelodau os ydynt yn gytûn ag amcanion Y Mudiad. Cynrychiolir pob cangen a chlwb gan dri aelod ar y pwyllgor Rhanbarth a danfonir ganddynt ddau aelod i'w cynrychioli yn y Cyfarfod Blynyddol gyda'r hawl i bleidleisio yno ar ran y gangen neu'r clwb. Caiff pob clwb ei gynrychioli ar Fforwm y Clybiau Gwawr gan un aelod a danfonir dau aelod o'r Fforwm i'w cynrychioli yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rhynggranbarthol gyda'r hawl i bleidleisio ar ran y Fforwm. Nid oes hawl diddymu cangen neu glwb heb yn gyntaf gysylltu â'r Swyddogion Rhanbarth.

Bydd pob cangen a chlwb lleol yn anfon adroddiad blynyddol o'u gweithgareddau a'u cyllid i'r Pwyllgor Rhanbarth a'r Pwyllgor Llywio.

#### 5. Y RHANBARTHAU

Y Rhanbarth fydd y ddolen gyswllt rhwng y canghennau a'r clybiau a berthyn iddo a'r Pwyllgor Rhynggranbarthol a'r Pwyllgor Llywio. Y Pwyllgor Rhanbarth fydd yn trefnu gwaith Y Mudiad yn Rhanbarthol, bydd yn sefydlu, yn cynghori ac yn cynorthwyo canghennau a chlybiau newydd a bydd yn anfon tri swyddog i'r Cyfarfod Cyffredinol gyda'r hawl i bleidleisio yno ar ran y Rhanbarth. Gall y Pwyllgor Rhanbarth ffurfio Is Bwyllgorau Rhanbarthol yn ôl y galw. Aelodau'r Pwyllgor Rhanbarth fydd y Swyddogion Rhanbarth, a thri swyddog o bob cangen o fewn y Rhanbarth.

Newid Rhanbarth Pe byddai cangen neu glwb yn dangos trwy bleidlais eu bod yn dymuno newid Rhanbarth yna bydd y gangen neu'r clwb yn cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Rhanbarth ac yna rhaid dwyn y cais gerbron y Pwyllgor Rhynggranbarthol.

#### 6. Y SWYDDOGION CENEDLAETHOL

Llywydd Anrhydeddus; Y Llywydd Cenedlaethol; Yr Is Lywydd Cenedlaethol

Bydd y Llywydd a'r Is-lywydd yn cael eu hethol o Ddeau a Gogledd Cymru am yn ail.

Yr Ysgrifennydd Cenedlaethol; Yr Is Ysgrifennydd Cenedlaethol (swyddog archebion)

Y Trysorydd Cenedlaethol; Yr Is Drysorydd Cenedlaethol Golygydd, Is olygydd a Dosbarthwr cylchgrawn y Mudiad

Bydd tymor eu swyddi fel a ganlyn: Llywydd Anrhydeddus: am oes Llywydd: 2 flynedd Is Lywydd: 2 flynedd (ar ddiwedd 2 flynedd daw hi yn Llywydd)

Ysgrifennydd: 2 flynedd

Is-ysgrifennydd: 2 flynedd (ar ddiwedd y 2 flynedd daw hi yn Ysgrifennydd)

Trysorydd: 3 mlynedd gan barhau yn is drysorydd am flwyddyn yn ychwanegol

Is Drysorydd: 2 flynedd (ar ddiwedd y 2 flynedd, daw hi yn drysorydd)

Gwneir enwebiadau gan y Canghennau gyda chaniatâd yr hon a enwebir, yna danfonir yr enwebiadau i Ysgrifennydd y Pwyllgor Rhanbarth a bydd y Pwyllgor Rhanbarth yn dewis un enw yn unig i'w ddanfon i'r Trefnydd Cenedlaethol; bydd hi'n paratoi papur pleidleisio gyda'r enwau a gyflwynwyd iddi gan y pwyllgorau Rhanbarth a bydd yn danfon copïau i'r Canghennau. Yna pleidleisia'r gangen leol dros un enw yn unig a danfonir y papurau pleidleisio yn uniongyrchol at y Trefnydd Cenedlaethol i'w cyfrif.

#### 7. Y PWYLLGOR LLYWIO

Y Pwyllgor Llywio fydd yn gyfrifol am weithredu polisi cyffredinol Y Mudiad ynghyd â rheoli gwaith y Swyddfa a'r staff. Aelodau'r Pwyllgor Llywio yw ymddiriedolwyr Y Mudiad. Aelodau'r Pwyllgor Llywio fydd: Y Llywydd Anrhydeddus, Y Llywydd Cenedlaethol, Yr Is Lywydd Cenedlaethol, Yr Ysgrifennydd Cenedlaethol, Yr Is Ysgrifennydd Cenedlaethol, Y Trysorydd Cenedlaethol, Yr Is Drysorydd Cenedlaethol, cynrychiolydd o bob un o'r is-bwyllgorau Cenedlaethol. Y trysorydd cenedlaethol fydd

cynrychiolydd yr is-bwyllgor cyllid. Bydd golygydd Y Wawr ar y pwyllgor fel sylwebydd. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Llywio fod yn aelodau o'r Mudiad.

Bydd y Pwyllgor Llywio yn cyfarfod ddim llai na phedair gwaith y flwyddyn. Bydd hanner aelodau'r Pwyllgor yn ffurfio cworwm. Gwaherddir aelodau rhag eistedd ar y Pwyllgor Llywio yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau a'r ddeddf Elusen 1993. Rhaid i bob aelod o'r Pwyllgor Llywio fod dros 18 mlwydd oed.

Gall aelod ymddiswyddo o'r Pwyllgor Llywio (os bydd o leiaf 3 aelod arall o'r Pwyllgor Llywio yn parhau mewn swydd pan ddaw'r ymddiswyddiad i rym) drwy fynegi ei dymuniad i wneud hynny i'r Pwyllgor Llywio (a) Yn ddarostyngedig i baragraff (b) isod ni fydd gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor Llywio diddordeb yn eiddo'r mudiad neu mewn cytundeb a gytunir gan y Pwyllgor Llywio ac ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Llywio yn derbyn tâl o ganlyniad i gytundeb a gytunir gan y Pwyllgor Llywio, mewn unrhyw fodd ond fel ymddiriedolwr i'r Mudiad.

(b) Gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor Llywio sydd yn gyfreithiwr, cyfrifydd neu aelod o broffesiwn arall godi a derbyn tâl yn unol â thaliadau arferol y proffesiwn am waith a gyflawnwyd ganddi neu ei chwmmi os bu i aelodau eraill y Pwyllgor Llywio ofyn iddi neu ei chwmmi i wneud hynny ar ran y Mudiad yn rhinwedd ei swydd broffesiynol ar yr amod na fydd mwyafrif aelodau'r Pwyllgor Llywio ar unrhyw adeg yn elwa o'r trefniant hwn ac y bydd aelod o'r Pwyllgor Llywio yn gadael y cyfarfod cyn unrhyw drafodaeth yn ymwneud â chyfarwyddyd neu dâl i'r aelod honno neu ei chwmmi.

#### 8. PWYLLGOR RHYNGRANBARTHOL

Bydd y Pwyllgor hwn yn gyfrifol am drafod materion Rhanbarthol a'u dwyn i sylw'r Pwyllgor Llywio. Bydd hefyd yn trafod materion ar gais y Pwyllgor Llywio. Aelodau'r Pwyllgor fydd: Y Swyddogion Cenedlaethol, 3 swyddog o bob Rhanbarth, 2 swyddog o bob Is Bwyllgor Cenedlaethol, Swyddogion Cenedlaethol am 2 flynedd yn dilyn gorffen eu tymor mewn swydd, dau gynrychiolydd o Fforwm y Clybiau Gwawr. Bydd chwarter cyfanrif aelodau'r Pwyllgor yn ffurfio cworwm. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf 2 waith y flwyddyn.

#### 9. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol yn gyfrifol am lunio polisiau a derbyn cynigion oddi wrth y Pwyllgor Llywio a'r Pwyllgor Rhynggranbarthol. Bydd yn derbyn cyfrifon a mantolen flynyddol y Mudiad. Rhestrir y materion a ddaw ger bron y cyfarfod hwn yn Rheolau'r Mudiad. Gall unrhyw aelod o'r Mudiad fynychu'r cyfarfod. Caiff y cynrychiolwyr canlynol bleidleisio yn y cyfarfod.

Swyddogion Cenedlaethol, tri swyddog o bob Rhanbarth, dau swyddog o bob Is-bwyllgor Cenedlaethol, dau gynrychiolydd o bob cangen a chlwb a Swyddogion Cenedlaethol am ddwy flynedd yn dilyn gorffen eu tymor mewn swydd. Bydd chwarter cyfanrif y cynrychiolwyr yn ffurfio cworwm.

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol yn cyfarfod ar y trydydd dydd Sadwrn ym mis Mai neu os bydd y Pwyllgor Llywio yn penderfynu nad yw'n ddimunol cyfarfod ar y dyddiad hwnnw ar y dydd cyfleus agosaf i'r dyddiad hwnnw yn ôl penderfyniad y Pwyllgor Llywio.

#### 10. PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyfarfod yn achlysurol ar ofyn y Pwyllgor Llywio yn unig. Cyfrifoldeb y pwyllgor fydd cynnig cyngor a chymorth ar faterion dadleuol fel bo'r angen. Aelodau'r pwyllgor fydd: Y Llywydd Anrhydeddus, Y Llywydd Cenedlaethol, Cyn-lywyddion Cenedlaethol.

#### 11. IS BWYLLGORAU CENEDLAETHOL

Caiff y rhain eu ffurfio gan y Pwyllgor Llywio fel bo'r angen. Cynrychiolir pob Is Bwyllgor gan ddau aelod ar y Pwyllgor Rhynggranbarthol a'r Cyfarfod Cyffredinol. Bydd

pob Is-bwyllgor yn cyflwyno adroddiad o'u gweithgareddau a'u cyllid i'r Pwyllgor Rhyngghanbarthol a'r Pwyllgor Llywio.

## 12. TREULIAU

Telir y rhain fel a ganlyn:

### i) Canghennau a Chlybiau

Yr holl dreuliau lleol (cludiant, ffôn, papur ysgrifennu, posteri, argraffu ac ati); tâl a threuliau siaradwyr, treuliau “allan o boced” rhesymol cynrychiolwyr I Bwyllgorau Rhanbarthol a'r Cyfarfod Cyffredinol.

### ii) Rhanbarthau:

Yr holl dreuliau Rhanbarthol; tâl a threuliau siaradwyr; treuliau gweithgaredd cenedlaethol a drefnir gan y Rhanbarth (e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol); treuliau “allan o boced” rhesymol i : cynrychiolwyr i'r Cyfarfod Cyffredinol ac i'r Pwyllgor Rhyngghanbarthol ac unrhyw weithgaredd Cenedlaethol, swyddogion Is Bwyllgorau Rhanbarthol, unrhyw un a anfonir yn swyddogol i sefydlu cangen newydd, cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd sefydliadau eraill (oni thelir y treuliau gan y sefydliadau hynny)

### iii) Y Mudiad yn Genedlaethol:

Yr holl dreuliau a achosir gan waith cenedlaethol; treuliau “allan o boced” rhesymol i swyddogion Cenedlaethol i Bwyllgor Llywio, Pwyllgor Rhyngghanbarthol, Cyfarfod Cyffredinol, Is Bwyllgorau ac unrhyw weithgareddau cenedlaethol; treuliau “allan o boced” rhesymol i gynrychiolwyr cenedlaethol i gyfarfodydd sefydliadau eraill (oni thelir y treuliau gan y sefydliadau hynny) ac ymweliadau swyddogol â changhennau a Rhanbarthau'r Mudiad.

### iv) Is Bwyllgorau Cenedlaethol:

Mae pob Is Bwyllgor yn gyfrifol am dalu treuliau “allan o boced” rhesymol eu swyddogion i fynychu cyfarfodydd o'r Is Bwyllgor, Pwyllgor Rhyngghanbarthol, Cyfarfod Cyffredinol ac unrhyw weithgaredd cenedlaethol arall.

## 13. CYFRIFON

Bydd y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar Awst 31. Bydd pob cangen, clwb a Rhanbarth yn anfon copi o'u cyfrifon i'r Trysorydd Cenedlaethol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Cedwir llyfrau cyfrifon priodol gan y Trysorydd Cenedlaethol ac archwilir hwynt yn flynyddol gan archwilwyr cymwys. Cedwir y llyfrau gan y Trysorydd Cenedlaethol a dyry hi gyfrif gwir a theg o gyfrifon y Mudiad yn ei hadroddiad blynyddol. Penderfynir a chadarnheir unrhyw dreuliau gan y Swyddogion Cenedlaethol. Llofnodir sicciau gan ddau swyddog sef y Trysorydd Cenedlaethol a'r Trefnydd Cenedlaethol neu un swyddog arall a enwebir.

## 14. NEWID Y CYFANSODDIAD

a) Trwy benderfyniad y Cyfarfod Cyffredinol yn unig y gellir newid y Cyfansoddiad hwn, yn unol â'r darpariaethau sydd yn dilyn. Ni cheir gwneud unrhyw newid yn y Cyfansoddiad a all beri i'r Mudiad beidio â bod yn elusen yn gyfreithiol.

b) Rhaid rhoi i bob cangen, clwb a Rhanbarth rybudd chwe wythnos ymlaen llaw, am y bwriad i newid y cyfansoddiad, gyda manylion digonol am y newid a fwriadir.

c) Ni fydd unrhyw newid yn effeithiol oni fwrir dros y newid

i) fwyafrif o'r pleidleisiau a fwrir ar y cynnig

ii) nifer o bleidleisiau sydd yn gyfartal â chwarter cyfanrif cynrychiolwyr y canghennau, clybiau, Rhanbarthau ac Is-bwyllgorau.

## 15. RHEOLAU SEFYDLOG

Bydd gan y Pwyllgor Llywio awdurdod i wneud Rheolau Sefydlog i reoli ei weithrediadau ei hun. Bydd ganddo hefyd awdurdod i wneud Rheolau Sefydlog ar gyfer Pwyllgorau canghennau, clybiau, Rhanbarthau ac Is-bwyllgorau ac ar gyfer Pwyllgorau

Rhyngranbarthol a Chyfarfodydd Cyffredinol. Bydd gan y Pwyllgor Llywio awdurdod i addasu'r Rheolau Sefydlog pan fo angen.

#### 16. DIDDYMU'R MUDIAD

Os bydd y Mudiad byth yn cael ei ddiddymu bydd unrhyw arian neu eiddo a berthyn iddo a fydd yn weddill wedi talu'r holl dreuliau a'r holl ddyledion (y rhedwyd iddynt yn iawn) yn cael eu rhannu ymysg sefydliadau elusennol cofrestredig yn gweithredu yng Nghymru ag amcanion tebyg i rai neu holl amcanion y Mudiad fel y'u penderfynir gan y Mudiad, gyda chymeradwyaeth y Comisiynydd Elusennau neu unrhyw awdurdod arall a hawl elusennol ganddo.

## SEFYLLFA BRESENNOL Y MUDIAD GAN GYNNWYS YSTADEGAU CYMRU

Gellir disgrifio Merched y Wawr fel mudiad llewyrchus, gweithgar a poblogaidd.

Yn ogystal â Chymry Cymraeg cynhenid, gwelir niferoedd sylweddol o oedolion yn dysgu'r iaith yn ymuno a'r mudiad ym mhob rhan o Gymru. Nid yw cymunedau Cymraeg yn bodoli yn naturiol er bod canran y siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd bron yn ddigon uchel i warantu hyn. Mae rôl allweddol gan Merched y Wawr i sicrhau datblygiad yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau Cymru.

### NIFER AELODAETH CANGHENNAU/CLYBIAU

Rhanbarth	Aelod mewn Cangen 2006/07	Aelod mewn Cangen 2007/08	Aelod mewn Clwb 2006/07	Aelod mewn Clwb 2007/08	Cyfanswm Aelodaeth 2006/07	Cyfanswm Aelodaeth 2007/08
Caerfyrddin	793	787	129	164	922	951
Ceredigion	942	940	80	83	1022	1023
Penfro	310	310	0	0	310	310
Gorllewin Morgannwg	335	323	0	33	335	356
Y De Ddwyrain	296	292	0	20	296	312
Aberconwy	330	311	0	11	330	322
Arfon	394	421	15	14	409	435
Colwyn	409	402	0	0	409	402
Dwyfor	446	466	0	0	446	466
Glyn Maelor	447	443	7	30	454	473
Maldwyn Powys	336	331	53	59	389	390
Meirionnydd	554	535	54	102	608	637
Môn	489	470	18	30	507	500
<b>CYFANSWM</b>	<b>6081</b>	<b>6031</b>	<b>356</b>	<b>546</b>	<b>6437</b>	<b>6577</b>

## HANES MERCHED Y WAWR

**O'r merched gad welediad – yn y Parc  
Ganwyd perl o fudiad,  
A rhain sy'n rhoi arweiniad  
Yn glir dros ryddid ein gwlad.**

*Emrys Jones*

Sefydlwyd Merched y Wawr ym 1967 yn y Parc ger y Bala.

Mae nifer wedi gofyn sut y cychwynnodd y mudiad - dyma hanes y sefydlu:

Ym mis Rhagfyr 1966 ymwelodd swyddogion Sefydliad y Merched, Meirionnydd, â changen Y Parc am eu bod yn anfodlon fod y gangen wedi anfon erthygl i'r *Cymro* yn beirniadu Sefydliad y Merched. Y feirniadaeth oedd bod Sefydliad y Merched yn anfon papurau swyddogol uniaith Saesneg i ganghennau a gynhaliai eu holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwynai'r erthygl hefyd am nad oedd gair o Gymraeg yn y '*North Wales Edition*' o gylchgrawn y mudiad hwnnw.

Yn y cyfarfod yn Y Parc eglurwyd i'r aelodau mai mudiad Saesneg oedd y W.I. ac yna awgrymwyd, os nad oeddynt yn fodlon perthyn i fudiad Saesneg, y dylid cau'r gangen a throsglwyddo'r papurau swyddogol i swyddogion y sir. Er nad oedd merched y Parc ar y dechrau wedi bwriadu torri i ffwrdd o'r W.I. teimlent nad oedd ganddyn nhw fawr o ddewis dan yr amgylchiadau heblaw derbyn yr awgrym a gweithredu yn unol â hynny.

Y noson honno penderfynwyd cychwyn cymdeithas newydd i ferched Cymru fyddai'n rhoi lle urddasol i'r Gymraeg. Yn ystod gwanwyn 1967 y bwriad oedd cychwyn ymgyrch yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala yn Awst, ond cyn hynny rhaid oedd cael ychydig o arian wrth gefn. Yn Ffair Glame yn nhref Bala roedd stondin gan ferched Y Parc i godi arian, ac fe holodd y diweddar Meirion Jones, prifathro'r Ysgol Gynradd, beth oedd diben y stondin.

Wedi clywed yr hanes, fe gysylltodd yn syth â'r wasg a'r cyfryngau, a gwnaed y bwriad yn gyhoeddus ar Fai 15fed. O fewn wythnos roedd cangen arall o Ferched y Wawr wedi'i sefydlu yn Y Ganllwyd gyda rhyw 34 o aelodau.

Y ddwy gangen arloesol hyn a aeth yn gyfrifol am drefnu Pabell Merched y Wawr ar faes yr Eisteddfod yn Y Bala ac am gynnal cyfarfod cyhoeddus ar y Maes. O ganlyniad uniongyrchol i'r cyfarfod hwnnw, fe gododd llawer iawn o ganghennau ledled Cymru a chyn bo hir fe drefnwyd Pwyllgorau Rhanbarth.

Ym mis Rhagfyr 1967 bu cynhadledd Genedlaethol yn Aberystwyth. Fe dyfodd y Mudiad fel caseg eira, ond nid heb lawer o waith trefnu gan ferched Y Parc.

---

### **Y swyddogion cyntaf oedd:**

Zonia Bowen; Ysgrifennydd

Gwyneth Evans; Llywydd

Kitty Edwards; Trysorydd

### **Llywyddion Anrhydeddus y Mudiad;**

Gwyneth Evans 1970 – 1992 (m)

Zonia Bowen 1972 -1975 (ym)

Marged Jones 1995 - Presennol

---

**Trefnyddion:**

Mair Elvet Thomas 1982 - 1984

Mererid James 1984 - 1994

Eleri Non Griffiths 1994 - 1998

Tegwen Morris 1999 - Presennol

---

Cafwyd dathliadau arbennig ar achlysur 25 mlynedd merched y Wawr yn Y Parc.



***Llun y dathliadau yn y Parc ym 1992***

Cafodd Cwilt arbennig ei bwytho gan aelodau Merched y Wawr o dan gyfarwyddyd Joyce Jones. Y mae'r cwilt bellach wedi ymgartrefi yn ein Canolfan Genedlaethol yn Aberystwyth. Hefyd yn y flwyddyn 2000 pan agorwyd y Ganolfan Genedlaethol yn Aberystwyth fe wnaethpwyd baner newydd gan Llinos Roberts o Ranbarth Colwyn.



## MERCHED Y WAWR HEDDIW

MUDIAD GWIRFODDOL SYDD YN TREFNU GWEITHGAREDDAU CYMDEITHASOL AC ADDYSGIADOL I FERCHED AC SYDD YN HYBU ADDYSG, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU YNG NGHYMURU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Safle'r Ganolfan Genedlaethol/ Swyddfa Bresennol:

Canolfan Merched y Wawr  
Stryd yr Efail  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1JH

Llywydd: Esyllt Jones

Trysorydd: Elinor Davies

Ysgrifennydd: Einir Wyn

Swyddogion Cyflogedig: Tegwen Morris - Cyfarwyddwr  
Jayne Jones - Swyddog Hyrwyddo Cymraeg Cymunedol  
Miriam Garratt – Swyddog Cyllid  
Delyth Rees – Swyddog Gweinyddol

Swyddogion Datblygu  
Malvina Ley  
Elisabeth Evans  
Mim Roberts  
Anwen Williams  
Yvonne Davies Grodzicka  
Eirlys Davies

Swyddogion Hyrwyddo Clybiau Gwawr  
Ruth Morgan  
Lowri Rees Roberts

Ymddiriedolwyr (Pwyllgor Llywio):

Esyllt Jones  
Mererid Jones  
Elfair Jones  
Elinor Davies  
Einir Wyn  
Mary Roberts  
Myfanwy Povey  
Glenys Davies  
Catrin Stevens (heb bleidlais)

Mae'r Pwyllgor Llywio yn cyfarfod yn rheolaidd yn y Ganolfan Genedlaethol.

## **Prif weithgareddau Merched y Wawr**

1. Cynnal 3,000 o weithgareddau ar lefel leol yn rheolaidd gan geisio denu aelodau newydd ac agor Canghennau a Chlybiau Gwawr newydd lle bo'r angen.
2. Cynnal pwyllgorau a gweithgareddau Rhanbarthol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng lefel leol a chenedlaethol.
3. Cyflogi 6 Swyddog Datblygu, un yn y Gogledd-orllewin a Maldwyn Powys, un yng Nghaerfyrddin, un yn y De-ddwyrain, un yn Gorllewin Morgannwg, un yn y Gogledd-ddwyrain, un yn Ne Powys ac un ym Mhenfro a Cheredigion, a 2 Swyddog Hyrwyddo a Marchnata a Chlybiau Gwawr: er mwyn:
- 4 Hybu gweithgaredd y Mudiad
- 5 Cynnal a chynorthwyo'r aelodaeth bresennol
- 6 Denu aelodau newydd
- 7 Sefydlu Clybiau Gwawr a Changhennau newydd
- 8 Trefnu gweithgareddau a chael nwyddau newydd i greu incwm i'r Mudiad
9. Gweithredu Cyfansoddiad y Mudiad ac yn sgil hynny:
10. Cynnal o leiaf 4 cyfarfod o Bwyllgor Llywio'r Mudiad
11. Cynnal 2 gyfarfod o'r Pwyllgor Rhynggranbarthol
12. Cynnal Cyfarfod Blynnyddol ym mis Mai
13. Parhau gyda'r 3 Is-bwyllgor cenedlaethol, i gwrdd oleiaf 2 waith y flwyddyn a chynnal pwyllgorau ar y cyd yn ôl y galw.
- 14.. Marchnata a hyrwyddo'r Ganolfan Genedlaethol.
15. Cynnal Penwythnos Preswyl cenedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan ar y thema Difyrwch a Doniau
16. Trefnu rhaglen Penwythnos Preswyl 2009 yn Aberystwyth.
17. Cynnal Cystadleuaeth Radi Thomas – pedair eitem o grefft, a chystadleuaeth trefnu blodau yn ystod Sioe Amaethyddol Llanellwedd 2008.
18. Cynnal Chwaraeon Cenedlaethol a chystadleuaeth adloniant - Tlws Gwyneth Evans, a chyflwyno tri thlws y Dysgwyr, sgwrs ar dâp sain, ysgrifennu erthygl a phoster yn dangos 'Amgylchedd' yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth i'w drefnu gan y Pwyllgorau Cenedlaethol ar y cyd.
19. Cyhoeddi a dosbarthu 4 rhifyn o gylchgrawn *Y Wawr*.
20. Cyhoeddi Dyddiadur 2007 ac argraffu cardiau Nadolig 2006.
21. Trefnu stondinau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; Sioe Amaethyddol Llanellwedd ac Eisteddfod Genedlaethol.
22. Cynnal Cwis Hwyl Cenedlaethol.
23. Cynnal Cwrs Crefft Undydd yn y De a'r Gogledd.
24. Cynnal Cinio'r Llywydd yn y De a'r Gogledd.
25. Datblygu Safle Gwe Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr

## RHESTR CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR

### **Rhanbarth Aberconwy (15)**

Betws y Coed a'r Fro, Capel Garmon, Carmel, Cyffordd Llandudno, CG Crwst, Eglwys Bach, Eigiau, Glan Conwy, Henryd, Llandudno, Llanddoged, Llanfairfechan, Llanrwst, Mochdre, Penmachno.

### **Rhanbarth Arfon (17)**

Bangor, Bethel, Bethesda, Brynaerau, Caernarfon, Clwb Gwawr Efa, Clwb Gwawr Glannau Llyfni, Deiniolen, Dinas Llanwnda a'r Cylch, Llandwrog, Llanrug, Penrhosgarnedd, Penygroes, Rhiwlas, Tregarth, Y Groeslon, Waunfawr.

### **Rhanbarth Caerfyrddin (41)**

Abergorlech, Abernant, Bargod Teifi, Berem, Bro Alma, Bro Cennech, Bro Elfed, Bro Gwili, Bro Pantycelyn, Caerfyrddin, Capel Iwan, Clwb Gwawr Alltgafan, Clwb Gwawr Clychau'r Gog, Clwb Gwawr Dinefwr, Clwb Gwawr Dyffryn Aman, Clwb Gwawr Gwendraeth, Clwb Gwawr Llangadog, Clwb Gwawr Llanllwni, Clwb Gwawr Llanymddyfri, Clwb Gwawr Maelog, Clwb Gwawr Merched Hywel, Geler, Glannau Pibwr, Gronw, Gwendraeth, Hendygywyn ar Dâf, Llanddarog, Llandeilo, Llanelli, Llangadog, Llangyndeyrn, Llannau'r Tywi, Nantgaredig, Pencader, Peniel, Penygroes, Pumsaint, Pump Heol, Rhydaman, San Clêr, Y Tymbl.

### **Rhanbarth Ceredigion (40)**

Aberporth, Aberystwyth, Beulah, Bro Cranogwen, Bro Iar, Bronant, Clwb Gwawr Cwennod, Clwb Gwawr Cylch Cennin, Clwb Gwawr Cwmann a'r Fro, Clwb Gwawr Y Cnapan, Clwb Gwawr Glannau Teifi, Clwb Gwawr Y Pennau, Clwb Gwawr Wiber, Cylch Aeron, Cylch Emlyn, Cylch Teifi, Cylch Wyre, Cylch y Mwnt, Felinfach a'r Cylch, Ffair Rhos, Genau'r Glyn, Glynarthen, Llanafan, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Llanfarian, Llangwryfon, Llannon, Llanybydder, Llwynpiod, Melindwr, Mynach a'r Cylch, Penrhyn-coch, Rhydypennau, Talgarreg, Tal-y-bont, Tregaron, Y Bryniau, Y Dderi, Y Garreg Wen.

### **Rhanbarth Colwyn (17)**

Abergele, Bae Colwyn, Gwytherin, Groes, Hen Golwyn, Henllan, Llanellwyr, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llangwm, Llansannan, Nantglyn, Pandy Tudur, Pentrefoelas, Prestatyn, Uwchaled, Y Rhyl.

### **Rhanbarth y De-ddwyrain (14)**

Aberdâr, Bro Radur, Casnewydd a'r Cylch, Clwb Gwawr Gartholwg, Clwb Gwawr Ogwr, Clwb Gwawr Y Fenni, Penybont ar Ogwr, Merthyr, Porthcawl, Tonysguboriau, Y Barri, Y Bontfaen, Y Fenni, Y Garth.

### **Rhanbarth Dwyfor (18)**

Abersoch, Bryncroes, Cricieth, Chwilog, Golan, Llanaelhaearn, Llaniestyn, Llannor ac Efailnewydd, Llwyndyrys, Morfa Nefyn, Mynytho, Nantgwynant, Nefyn, Pencaenewydd, Pistyll, Porthmadog, Pwllheli, Trefor.

### **Rhanbarth Glyn Maelor (19)**

Bontuchel, Bryneglwys a Llandegla, Corwen, Cynwyd, CG Corwen, CG Y Gleision, CG Maelor, Derwen, Dinbych, Dyffryn Ceiriog, Gwyddelwern, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr Y.C., Rhiwlas a'r Cylch, Rhos a Phenycæ, Rhuthun, Treffynnon, Wrecsam, Yr Wyddgrug

### **Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (16)**

Abertawe, Afan, Castell Nedd, Clydach, Clwb Gwawr Cwm Tawe, Clwb Gwawr Yr Elyrch, Glyn Nedd, Gorseinon, Gwaun Gors, Lôn Las, Pontardawe, Pontarddulais a'r Cylch, Treboeth, Treforys, Ystalyfera, Y Gwter Fawr.

**Rhanbarth Maldwyn-Powys (16)**

Bro Cyfeiliog, Bro Ddyfi, Carno, Clwb Gwawr Glyndwr, Clwb Gwawr Tanat, Croesoswallt, Glantwymyn, Llanerfyl, Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanwddyn, Y Bannau, Y Canoldir, Y Drenewydd, Y Foel.

**Rhanbarth Meirionnydd (30)**

Aberdyfi, Blaenau Ffestiniog, Brithdir, Bro Tryweryn, Brynchrug, Clwb Gwawr Y Lechen Las, Clwb Gwawr y Gwyniaid, Clwb Gwar y Sgwâr, Corris, Cwm Nantcol, Deudraeth, Dolgellau, Glanrafon, Harlech, Llanuwchllyn, Llandrillo, Llandderfel, Llan Ffestiniog, Mawddwy, Maes-y-Waun, Pennal, Rhydymain, Sarnau, Talsarnau, Trawsfynydd, Tywyn, Y Ganllwyd, Y Bala, Y Bermo, Y Parc.

**Rhanbarth Môn (23)**

Amlwch, Benllech, Bodedern, Bodwrog, Brynsiencyn, Clwb Gwawr Y Gors Goch, Clwb Gwawr Lawd, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, Llandegfan, Llanddeusant, Llannerchymedd, Llanfairpwll, Llanfechell, Llangefni, Maelog, Niwbwrch, Porthaethwy, Rhosmeirch, Rhosybol, Talwrn, Y Fali.

**Rhanbarth Penfro (14)**

Beca, Blaenffos, Bro Ddewi, Capel Newydd, Crymych, Dinas, Ffynnon Groes, Hwlfordd, Llandudoch, Maenclochog, Mynachlogddu, Tegryn, Trefdraeth, Bro Barti Ddu.

## **PRIF NÔD HIR DYMOR MERCHED Y WAWR**

Prif nod tymor hir Merched y Wawr ydyw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghymru a chreu cyfleoedd cymdeithasol i ferched yn bennaf ym mhob ardal o Gymru.

- Diogelu'r iaith a'i defnyddio ymhob achos yn enwedig yn y gweithle
- Gofalu bod merched yn ymfalchïo yn yr Iaith Gymraeg ac yn ei throsglwyddo i'w plant
- Dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
- Bod yn flaengar a chreu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn weledol yng Nghymru
- Ysgogi cyfleoedd i ddysgwyr groesi'r bont a dod yn rhugl
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael eu defnyddio mewn llefydd cyhoeddus megis siopau, bwytai, gwestai - cynnig cymorth i gyfieithu
- Cael mwy o gyd-weithio o fewn y gymuned, rhwng y gangen a'r gymdeithas leol.
- Creu mudiad blaengar a chadarn drwy annog mwy o gydweithio rhwng y canghennau a'r clybiau gwawr.
- Hybu bwyd Cymreig/Cymraeg i Ferched
- Ceisio annog y clybiau gwawr i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r mudiad, edrych ar gynnal nosweithiau rhanbarthol cymdeithasol - canghennau a chlybiau yn cydweithio.

## AMCANION 2008-2011

### **STRATEGAETH**

#### *Maes Gweithredu*

- Cynnig gwasanaeth proffesiynol drwy'r iaith Gymraeg
- Paratoi Pecyn i'w roi allan pan mae rhywun yn awyddus i ddechrau sefydlu Clwb Gwawr neu Gangen newydd.
- Cynnal swyddfa/canolfan i bobl alw mewn.
- Creu ymwybyddiaeth o'r mudiad yn y Gwyliau Cymraeg yng Nghymru
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i holl drigolion Cymru, trwy ein digwyddiadau/gweithgareddau
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o weithgarwch ein mudiad trwy'r Wasg Saesneg, Rhaglenni Teledu ayyb.
- Codi proffil gweledol y Gymraeg yng Nghymru
- Cynyddu statws yr iaith mewn amryw o feysydd
- Sefydlu Clybiau Gwawr Canghennau newydd a chynnal canghennau a'r clybiau presennol
- Cynnal Canghennau a'r Clybiau Presennol
- Annog a hyrwyddo'r mudiad o fewn y gymuned trwy'r iaith Gymraeg.
- Datblygu a darparu cyfleon Cymraeg i ferched o bob oedran i ddefnyddio'r iaith
- Hyrwyddo a marchnata pob cyfle sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith yn effeithiol
- Creu partneriaeth gyda mudiadau eraill i ddatblygu'r prif nod tymor hir
- Pwyso, annog a chynorthwyo Mudiadau i wella eu darpariaeth yn yr iaith Gymraeg
- Annog a chynorthwyo busnesau, mudiadau a chymdeithasau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau drwy ofyn am y gwasanaethau hynny
- Cyhoeddi 4 rhifyn y flwyddyn o gylchgrawn "Y Wawr" ac annog croesdoriad o bobl i gyfrannu ato.
- Denu mwy o ddysgwyr i ddysgu'r iaith ac ymuno yn ein gweithgareddau.

- Cynnal/mynychu cyfarfodydd gyda Chanolfannau Iaith, ymweld â Sadyrnau Siarad ayyb.
- Gwella amodau byw defnyddwyr y Gymraeg sydd angen gwell cyfleusterau oherwydd eu hoedran, anabledd, tlodi ac amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd
- Gwerthuso llwyddiant/methiant pob digwyddiad
- Casglu data ac ymchwil am sefyllfa'r Gymraeg ac anghenion ein haelodau
- Cyfrannu syniadau a chydweithio gyda mudiadau lleol a chenedlaethol sydd ag amcanion tebyg
- Gwerthuso ac ymateb i ffactorau allanol fyddai'n effeithio'r iaith
- Rhoi cyfle i fwynhau cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Dangos fod y Gymraeg ar y blaen ac yn medru ymateb i ofynion ein cymdeithas fodern cystal ag unrhyw iaith arall
- Rhoi ystyriaeth i bresenoldeb y mudiad yn Eisteddfod Llangollen, Gŵyl Gelli Gandryll
- Edrych i mewn i'r dull/dulliau mwyaf effeithiol o ysgogi diddordeb mewn dechrau Clwb Gwawr/cangen
- Hysbysu'r angen i gael erthyglau/eitemau i'r Wawr i gynulleidfa eang
- Hysbysu yn y papurau lleol, posteri mewn siopau, llyfrgelloedd ayyb, dosbarthiadau dysgu Cymraeg i ddenu Dysgwyr i'n gweithgareddau
- Holiaduron parthed sefyllfa'r Gymraeg ac anghenion aelodau
- Cyfrannu syniadau a chydweithio gyda mudiadau lleol trwy gynnal cyfarfodydd rhwng y mudiad a'r sefydliadau eraill hyn
- Ffactorau allanol fyddai'n effeithio ar iaith - anfon holiaduron, cysylltu ag adrannau ymchwil iaith y prifysgolion.
- Lle mae busnesau'n cael eu rhedeg gan Gymry, a/neu yn medru cynnal nosweithiau i glybiau a chymdeithasau
- Rhoi'r enwau yma ar gyfeiriadur (e.e. Gwefan Clybiau Gwawr)
- Creu DVD i hysbysebu'r mudiad - neu raglen 'Power Point' efallai gydag is-deitlau i'w defnyddion mewn dosbarthiadau dysgwyr

## *Cynnal a Datblygu'r Ganolfan Genedlaethol*

- Marchnata'r Ganolfan i'r canghennau
- Anfon holiaduron gwerthuso ayyb i'r canghennau sydd wedi ymweld
- Anfon holiaduron gwerthuso ayyb i'r cymdeithasau/mudiadau eraill sy'n defnyddio'r ganolfan
- Cymryd cyfleoedd pan ddaw cyfweiliadau gan y cyfryngau i hysbysebu'r Ganolfan
- Hysbysebu'r Ganolfan yn y papurau lleol, Daily Post, Western Mail, papurau bro
- Datblygu'r we a hysbysebu'r ganolfan ar y we a diweddaru
- Anfon ffurflenni a gwybodaeth ar y we
- Catalog nwyddau
- Uwchraddio'r Swyddfa, paentio ayyb, ac ail strwythuro'r swyddfa
- Gwneud y safle'n fwy diogel – agoriadau plastig ayyb
- *Cynnal diwrnod agored i gymdeithasau lleol*
- Cynnig yr offer cyfieithu sydd yn y Ganolfan i'r defnyddwyr (am ddim/tâl)
- Hysbysebion /posterï Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu harddangos
- Cadw prisiau llogi i lawr
- Marchnata diwrnod agored yn achlysurol
- Llythyru â mudiadau gwirfoddol, cymdeithasau, busnesau lleol i farchnata'r adeilad
- Paratoi ffurflen farchnata
- Cyfarchion Nadolig i'r defnyddwyr

**Negyddol:** Diffyg parcio

Diffyg preifatrwydd a swfn

**Staff a Swyddogion Gwirfoddol ( yn gyfredol 1 Medi 2008)**

***Staff:***

Cyfarwyddwr Cenedlaethol – Tegwen Morris

Swyddog Datblygu Gogledd Orllewin Cymru a Maldwyn Powys – Mim Roberts

Swyddog Datblygu Gogledd Ddwyrain Cymru – Anwen Williams

Swyddog Datblygu Gorllewin Morgannwg – Malvina Ley

Swyddog Datblygu Caerfyrddin – Yvonne Davies-Grodzicka

Swyddog Datblygu Ceredigion a Phenfro – Elizabeth Evans

Swyddog Datblygu y De-Ddwyrain – Eirlys Davies

Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y Gogledd – Lowri Rees Roberts

Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y De – Ruth Morgan

***Swyddogion:***

Llywydd – Eysyllt Jones

Is-lywydd - Mererid Jones

Ysgrifennydd – Einir Wyn

Is-ysgrifennydd – Mary Roberts

Trysorydd – Elinor Davies

Is-drysorydd – Elfair Jones

*Cynrychiolwyr yr Is-bwyllgorau ar y Pwyllgor Llywio:*

Gŵyl a Hamdden - Glenys Davies

Iaith a Gofal – Myfanwy Povey

Y Wawr – Catrin Stevens (ddim yn Ymddiriedolwraig)

## *Codi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg*

- Hysbysebu'n effeithiol pob agwedd o'n gwaith
- Datganiadau i'r wasg am weithgareddau a digwyddiadau'r mudiad
- Sicrhau fod pob cyfle sydd ar gael i ddefnyddio'r iaith yn cael ei ddatblygu'n llawn
- Tynnu sylw'r di-Gymraeg at y cyfleoedd sydd ar gael yn y Gymraeg
- Annog neu ddenu'r di-Gymraeg i gymryd mwy o ddiddordeb yng Nghymru - ei hiaith, hanes a'i diwylliant a darbwyllo'r di-Gymraeg eu hiaith i ymddiddori yn y rhain
- Cryfhau'r rhwydwaith gyfathrebu rhyngom â'n partneriaid
- Cynorthwyo'r papurau bro ar lefel leol i fod un o'r prif gyfryngau gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg
- Sicrhau fod yr wybodaeth am weithgareddau Cymraeg ar gael mewn amryw ffyrdd, gan sicrhau fod yr wybodaeth yn hawdd deall gan y gwahanol grwpiau targed
- Cryfhau a datblygu safle We'r Mudiad er mwyn hysbysu'r Cymry Cymraeg am weithgareddau'r mudiad.
- Pwyso ar fudiadau i ddatblygu cyrsiau a chyfleoedd newydd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymchwilio i mewn i'r angen am ddarpariaeth
- Mynychu dosbarthiadau'r dysgwyr yn swyddogion ac aelodau i gynorthwyo yn sesiwn sgwrsio er mwyn denu aelodau newydd
- Cael sgwrs a thrafodaeth gyda'r dysgwyr da/brwdfrydig e.e. penwythnosau preswyl/diwrnod agored
- Cynnal mwy o ddigwyddiadau ar y cyd - oes 'na bwrpas mynd i rali Ffermwyr Ifanc
- Anfon gwybodaeth a lluniau
- Annog mwy o fewnbwn i'r wefan
- Cynhyrchu yn broffesiynol – DVD neu raglen 'Power Point' i esbonio gwaith y mudiad i'r dysgwyr a mudiadau eraill gydag is-deitlau efallai

## **Defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd**

Gwneir hyn yn barhaol trwy ein rhwydwaith o ganghennau, clybiau a rhanbarthau gyda'r arweiniad yn dod o'r Swyddfa yn Genedlaethol.

## **Creu partneriaethau gyda Mudiadau eraill**

- Cynyddu defnydd o'r iaith drwy gydweithio ac annog yn effeithiol gyda mudiadau eraill drwy lythyru, mynychu cyfarfodydd a chynnig cymorth
- Arwain i lobio yn effeithiol ar faterion o bwys yng Nghymru.
  - Rhannu profiadau ymhlith yr aelodau
  - Rhannu gwybodaeth am bynciau allweddol
  - Rhannu gwybodaeth am ymarfer da
  - Trafod ffynonellau ariannol a allai fod o ddefnydd i ni
  - Darparu hyfforddiant yn ôl anghenion yr aelodau
  - Hybu'r Gymraeg ymhlith mudiadau a grwpiau Cymru
  - Datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
  - Mynychu cyfarfodydd gyda Phartneriaethau
  - Estyn gwahoddiad i bartneriaeth fynychu gweithgareddau cenedlaethol a rhanbarthol
  - Y canghennau i gydweithio mwy gyda Sefydliad y Merched a'u gwahodd hwy i weithgareddau
  - Annog canghennau i gydweithio mwy gyda'r dysgwyr e.e. gwahodd i nosweithiau anffurfiol
  - Sicrhau fod tiwtoriaid yn derbyn gwybodaeth cystadlaethau dysgwyr
  - Atyniadau twristiaeth – annog i ddarparu gwasanaethau Cymraeg – cynnig cymorth
  - Cysylltu â mudiadau'r henoed i ddarparu defnydd yn y Gymraeg a rhoi cynghorion
  - Annog ein haelodau i gefnogi ymgyrchoedd ein partneriaid e.e. rhoi llyfr yn arhrog yn ystod Wythnos Ymgyrch Lyfrau ym mis Gorffennaf

- Dosbarthu gwybodaeth am Ferched y Wawr drwy gyfrwng ein partneriaid
- Noddi digwyddiadau ein partneriaid er mwyn do dag enw'r mudiad i sylw'r cyhoedd
- Cydweithio â phartneriaid mewn ymgyrchoedd/digwyddiadau CFFI /Clybiau Gwawr
- Gofyn i fudiadau eraill am syniadau, cynnal sesiynau 'brainstorming' gyda mudiadau eraill i'r perwyl hwn
- Rhannu gwybodaeth ynglŷn â chynyddu defnydd o'r iaith gyda mudiadau eraill
- Rhannu gwybodaeth ynglŷn â ffynonellau ariannol gyda mudiadau eraill, meddwl ar y cyd am ffynonellau eraill o arian

### *Datblygu a darparu cyfleuon i ddefnyddio'r Iaith*

- Trefnu Gŵyl Haf a chwaraeon yn flynyddol gyda Phartneriaid
- Paratoi adroddiad o'r sefyllfa ar y pryd ac awgrymiadau o'r ffordd ymlaen
- Cyhoeddi a dosbarthu cylchgrawn Y Wawr bedair gwaith y flwyddyn
- Parhau a gwaith e-bostio manylion i staff/swyddogion ac aelodau gan gynyddu ar y nifer o bobl sydd yn derbyn ein manylion a gwybodaeth.
- Arwain a cheisio creu cymdeithasau Cymraeg llewyrchus ar lefel gymunedol ar draws Cymru.

### *Addysg*

- Arwain a cheisio creu cymdeithasau Cymraeg llewyrchus i ferched ar lefel gymunedol ar draws Cymru
- Cydweithio gyda Bwrdd yr Iaith er mwyn Marchnata Addysg Gymraeg h.y. dosbarthu deunyddiau'r ymgyrch mewn cydweithrediad a swyddogion y Bwrdd.
- Casglu a pharatoi rhestr o fudiadau ac unigolion, gyda chaniatâd, sydd ar gael sydd yn gallu cynnig nosweithiau yn y Gymraeg (dilynwn reolau Deddf Diogelu Data)
- Cynnig a chynyddu'r hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg
- Annog unigolion/mudiadau newydd i gynnig darpariaeth ble fo'r angen
- Cynnig cyfleuon i ddysgwyr i wella ei hiaith
- Cynnig cyfleuon ar benwythnosau i aelodau gymdeithasu ar ein penwythnos preswyl a datblygu taith dramor yn 2009.
- Cyrsiau Crefft

### Is-bwyllgorau Cenedlaethol

Caiff y rhain eu ffurfio gan y Pwyllgor Llywio fel bo'r angen. Cynrychiolir pob Is-Bwyllgor gan ddau aelod ar y Pwyllgor Rhyngghanbarthol a'r Cyfarfod Cyffredinol. Bydd pob Is-bwyllgor yn cyflwyno adroddiad o'u gweithgareddau a'u cyllid i'r Pwyllgor Rhyngghanbarthol a'r Pwyllgor Llywio.

Dyma'r Is-bwyllgorau sydd yn gyfredol:

#### Cyllid

Cyfarwyddwr Cenedlaethol – Tegwen Morris  
Trysorydd Cenedlaethol – Elinor Davies  
Is-lywydd Cenedlaethol – Mererid Jones  
Is-ysgrifennydd Cenedlaethol – Mary Roberts  
Is-drysorydd Cenedlaethol – Elfair Jones  
a phob Trysorydd Rhanbarth.

#### Iaith a Gofal

Llywydd – Myfanwy Povey  
Ysgrifennydd – Cynthia Edwards  
Trysorydd – Margaret Jones  
Cynrychiolwyr o bob rhanbarth

#### Gŵyl a Hamdden

Llywydd – Glenys Davies  
Ysgrifennydd – Annie Parry  
Trysorydd – Meira Evans  
Cynrychiolwyr o bob rhanbarth

### Gweithgareddau

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleuon sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cynyddu/hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y Cartref a thu allan
- Cydweithio gyda MYM i drefnu Miri Dolig
- Cynnig Gweithgareddau er mwyn i bawb ddefnyddio a gwella eu Cymraeg
- Trefnu Nosweithiau a Hyfforddiant o Ddiddordeb: Gemwaith, Dawns, Drama, Nofio, Celf, Dringo, Cyfrifiaduron a sgysiau a darlithoedd
- Cydweithio gyda Swyddogion Chwaraeon y Cyngor Lleol i drefnu ymwybyddiaeth a chwaraeon lleol
- Cydweithio i drefnu digwyddiadau rhanbarthol amrywiol
- Ehangu'r cyfle i ymarfer y Gymraeg ar ôl gadael y sustem addysg

- Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Trefnu ac arwain unrhyw weithgarwch penodol a fyddai'n amlwg o'n hymchwil bod yma ofyn amdano
- Cychwyn Clybiau diddordeb fyddai'n tynnu'r Cymry Cymraeg a'r dysgwyr at ei gilydd gan gynnig amrywiol weithgareddau, rhai yn dderbyniol i bawb ac eraill yn arbenigol (dynion hefyd)
- Cadw gwybodaeth gyffelyb ar ein safle gwe, gan ei ddiweddarau yn fisol
- Cynorthwyo dysgwyr yr iaith i ddod yn rhan o'r gweithgareddau drwy ddenu a chynnig arlwy arbennig iddynt – yn agored, gemau/blasu gwin ayb.
- Cynnig ambell i weithgaredd yn benodol i ddysgwyr ond yn agored i siaradwyr rhugl ei fynychu hefyd - pontio
- Bod yn ymwybodol bod bellach dair carfan yn datblygu o fewn y mudiad sef, clybiau, y rhai rhwng 40 a 65'ish' yn y canghennau a'r aelodau oedrannus. Rhaid paratoi a chysidro'r tair carfan uchod
- Clystyru canghennau/clybiau fesul ardaloedd a threfnu o leiaf un cyfarfod y flwyddyn iddynt (gall hyn fod yn gyfrifoldeb i'r swyddogion datblygu)
- Teithiau cyfnewid

### **Ymchwil a gwerthuso**

#### a) Ymchwil

- Sicrhau ymchwil fanwl ar gyfer llwyddiant/methiant pob digwyddiad
- **Pwysig edrych yn ôl ar lwyddiannau a methiannau**
- Casglu barn onest trawsdoriad o'r aelodau
- Casglu gwybodaeth oddi wrth y gymuned drwy amryw ffyrdd megis holiaduron, cyfarfodydd, grwpiau trafod, fforymau
- Angen cael defnyddio mwy o'r holiaduron. Pwysig cael y clybiau at ei gilydd
- Ceisio creu darlun cyflawn o anghenion y gymuned o'r iaith Gymraeg
- Sicrhau y gwarier unrhyw nawdd yn y ffordd fwyaf effeithiol

b) Gwerthuso

- Gosod safonau a thargedau i'w cyrraedd (Cadw'r targedau o fewn cyrraedd)  
Pwysig – cynllun i'w ddilyn
- Datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol drwy gyfarfodydd gan adrodd yn ôl a blaen
- Gwerthuso'r digwyddiadau gan y Swyddogion Datblygu
- **Y Pwyllgor Llywio a'r Is-bwyllgorau perthnasol sydd yn gyfrifol am asesu a gwerthuso strategaeth gyffredinol Merched y Wawr**
- Mwy o fewnbwn gan y staff yn y Pwyllgor Llywio
- **Adolygu'r cynnydd tuag at yr amcanion strategol hynny trwy'r:**
  - Pwyllgor Llywio yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd gan y staff cyflogedig
  - Pwyllgor Llywio i dderbyn adroddiadau ariannol rheolaidd gan y Trysorydd
  - Cyfarwyddwr i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r staff i drafod targedau eu meysydd unigol, yn ogystal â hyfforddiant, iechyd a diogelwch a systemau gweinyddol
  - Cyfarwyddwr gyda'r Llywydd Cenedlaethol i gynnal cyfarfod yn flynyddol i werthuso pob aelod o staff
  - Wrth baratoi adroddiad/cyfrifon blynyddol, archwiliedig, sy'n dderbyniol i'r gwahanol gyllidwyr
  - **Wrth gynnal cyfarfod blynyddol agored i'r cyhoedd i dderbyn y cyfrifon, adroddiadau a gwneud cynigion, ac ethol pwyllgorau a swyddogion yn unol â'r cyfansoddiad.**

## Nawdd

- **Ymchwilio i mewn i ffynonellau nawdd - newydd**
- **Cynnal perthynas iach gydag ein noddwyr presennol**
- Creu strategaeth effeithiol i ddenu nawdd i'r dyfodol
- Hysbysu canghennau/rhanbarthau o'r nawdd sydd ar gael
- Annog canghennau/rhanbarthau i ymchwilio a gwneud ceisiadau am nawdd
- Ymchwilio i nawdd gan gynghorau lleol
- **Ein bod yn wybyddus o ffynonellau ariannol y ein hardal ni**
- Trefnu cyfarfodydd/sgyrsiau gyda swyddogion cyllid y cynghorau, fel ein bod yn wybyddus gyda nhw a nhw gyda ninnau
- Cynnal derbyniad gyda'r partneriaid i gael creu perthynas dda gyda nhw

## **ATODIAD 1: DISGRIFIAD SWYDDI**

### **Llywydd Cenedlaethol**

#### **Swydd Ddisgrifiad**

##### Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr

- Bod yn aelod o'r pwyllgor llywio ac yn ymddiriedolwr
- Hyrwyddo cyfansoddiad y Mudiad
- Cyd - weithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Mudiad
- Ymglyfarwyddo â holl weinyddiad y Mudiad
- Cyd- weithio gyda'r uwch swyddogion
- Cadeirio cyfarfodydd llywio'r Mudiad
- Cadeirio'r pwyllgor rhynggranbarthol
- Cefnogi'r swyddogion datblygu
- Llywio gweithgareddau'r penwythnos preswyl
  
- Ymweld â changhennau.
- ymateb i anghenion / cefnogi
- derbyn gwahoddiadau
  
- Mynychu pwyllgorau rhanbarth ar draws Cymru
  
- Bod yn bresennol yn y Prif Wyliau Cymreig
  
- e.e. Yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd,
- Sioe fawr Llanelwedd
  
- Cynrychioli'r Mudiad mewn gwahanol ddigwyddiadau
  
- Cynnal cyfweiliadau ar y radio a'r teledu
  
- Cadeirio panel penodi staff fel bo'r galw
  
- Gyda'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol cynnal cyfarfodydd blynyddol i werthuso pob aelod o'r staff

#### **Trysorydd Cenedlaethol**

Cydweithio gyda'r Swyddog Cyllid yn y Swyddfa. Cynnal hyfforddiant ar gyfer trysoryddion rhanbarth neu gangen/clwb fel bo'r galw.

#### **Bob mis.**

Derbyn llunopïau o'r Cyfriflenni Banc, yr anfonebau a chopi o'r holl daliadau a'r incwm sy'n mynd drwy'r banc, (a fydd wedi ei baratoi gan y Swyddog Cyllid) a'i rhoi ar y cyfrifiadur, a gofalu fod y cyfan yn gywir, drwy wneud cysondeb banc yn fisol.

## **Medi**

Paratoi ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr a'r Swyddog Cyllid:

Agenda Pwyllgor Cyllid a gynhelir ym mis Hydref.

Mynychu'r Penwythnos Preswyl a thalu'r Artistiaid a.y.b.

a'i cael i lofnodi eu bod wedi derbyn i siec.

Dechrau paratoi'r cyfrifon Cenedlaethol.

Paratoi Cyfrif y Wawr am y flwyddyn ar gyfer derbyn grant y Cyngor Llyfrau.

## **Hydref**

Cynnal a chadeirio (gellir gofyn i'r Is-lywydd Cenedlaethol i gadeirio os dymunir) pwyllgor cyllid ddechrau'r mis gyda Thrysoryddion y Rhanbarthau (ac Is-drysoryddion os dymunir) y Cyfarwyddwr, Swyddog Cyllid a'r Swyddogion Cenedlaethol yn bresennol.

Trafod Tâl Aelodaeth, pecyn gwybodaeth i'r Trysoryddion, syniadau am nwyddau newydd ac unrhyw broblem arall sy'n codi ym myd Cyllid yn cynnwys y Banciau a'i hagwedd tuag at yr iaith. Edrych ar gostau teithio.

Rhoi argymhellion y pwyllgor Cyllid ac o flaen y pwyllgor Llywio.

Paratoi cyfrifon drafft o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y pwyllgor Llywio cyn eu danfon i mewn i'r Cyfrifydd.

Paratoi adroddiad o'r pwyllgor Cyllid ar gyfer y Pwyllgor Rhynganbarthol.

Derbyn ffurflenni Incwm a Gwariant y Canghennau/Clybiau, Rhanbarthau a'r Is-bwyllgorau Rhanbarthol a'r Genedlaethol i mewn.

## **Tachwedd**

Dechrau gwirio'r ffurflenni Incwm a Gwariant gyda help yr Is-drysorydd.

Mynychu a helpu gyda Chwis Hwyl y Rhanbarth .

Mynychu Pwyllgor y Rhanbarth

## **Rhagfyr**

Paratoi llif arian ar gyfer y pwyllgor Llywio, a rhoi adroddiad.

Paratoi ffigyrau cyflogau'r staff ar gyfer ffurflen targedau Bwrdd yr Iaith.

Mynychu'r Ffair Aeaf a helpu gyda'r Stondin i werthu nwyddau a raffl.

## **Ionawr**

Paratoi Agenda ar gyfer pwyllgor Cyllid mis Chwefror.

Gorffen gwirio ffurflenni Incwm a Gwariant.

Paratoi dadansoddiad o gyfrifon y Canghennau/Clybiau a'r Rhanbarthau yn cynnwys yr Is-bwyllgorau.

## **Chwefror**

Cynnal a chadeirio (gellir gofyn i'r Is-lywydd Cenedlaethol i gadeirio os yn dymuno) pwyllgor cyllid ddechrau'r mis gyda Thrysoryddion y Rhanbarthau (ac Is-drysoryddion os yn dymuno) y Cyfarwyddwr, Swyddog Cyllid a'r Swyddogion Cenedlaethol yn bresennol.

Dosbarthu dadansoddiad o gyfrifon y Canghennau/Clybiau a Rhanbarthau a rhoi sylw i'r canghennau/clybiau sy'n wan o ran cyllid.

Gofyn i'r Trysoryddion i fynd ar ôl ffurflenni Incwm a Gwariant sydd heb eu derbyn neu ddim yn hollol gywir.

Cyhoeddi enwau'r Rhanbarthau a'r Canghennau sydd wedi cael arfarniadau cyfrifon gan y Cyfrifydd.

Derbyn ffurflenni Taliadau'r Canghennau, Clybiau a'r Rhanbarthau i mewn, a'i rhoi ar y Cyfrifiadur mewn rhesi. (Tâl Aelodaeth, Gwerthiant Cardiau Nadolig, Dyddiaduron, Nwyddau).

Paratoi Llif Arian ar gyfer y pwyllgor Llywio a rhoi unrhyw argymhellion o'r pwyllgor Cyllid.

Trafod cyfrifon drafft oddi wrth y Cyfrifydd.

Paratoi adroddiad o'r pwyllgor Llywio ar gyfer y pwyllgor Rhynggranbarthol.

### **Mawrth**

Cyfrifon i'r Cyfrifydd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.

Cofio edrych ar Raddfa NJC ar y We yn cael ei hysbysebu o fis Fawrth ymlaen hyd y daw (efallai y bydd yn fis Medi) am godiad chwyddiant yn y cyflogau a thrafod gyda'r pwyllgor Llywio i'w dalu yn ôl i fis Ebrill. Hefyd eisiau cadw llygad ar godiadau 'Isafswm Cyflog' sy'n effeithio ar gyflog y gofalwr.

### **Ebrill**

Paratoi llif arian ar gyfer y pwyllgor Llywio, a rhoi adroddiad o'r hyn sy'n digwydd gyda'r Cyllid.

Mynychu Cinio Llywydd y De a helpu gyda'r Raffl a'r nwyddau ynghyd â thalu'r artistiaid.

### **Mai**

Paratoi adroddiad ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ym Machynlleth.

Mynychu'r Cyfarfod Blynyddol a helpu gyda'r trefniadau bore a phrynhawn.

Mynychu Eisteddfod yr Urdd a helpu i werthu nwyddau ar y stondin.

### **Mehafin**

Paratoi ar y cyd gyda'r Swyddog Cyllid y ffurflenni Incwm a Gwariant i'w hanfon allan i Drysoryddion y Rhanbarthau.

Paratoi ffigyrau ar gyfer llenwi ffurflen Monitro Grant Bwrdd yr Iaith.

### **Gorffennaf**

Mynychu Sioe Amaethyddol Llanelwedd a chynorthwyo gyda gwerthu nwyddau, a bancio'r arian.

### **Awst**

Mynychu Eisteddfod Genedlaethol a chynorthwyo gyda gwerthu nwyddau.

## **Ysgrifennydd Cenedlaethol**

1. Cofnodi holl bwyllgorau cenedlaethol y mudiad – Llywio, Rhynggranbarthol a'r Cyfarfod Blynyddol.
2. Marchnata'r mudiad bob cyfle y gellir, e.e. cynrychioli mewn cyfarfod cyhoeddus.
3. Bod yn rhan o banel cyfweld unrhyw swydd a hysbysebhir gan y mudiad – angen paratoi cwestiynau yn dilyn derbyn copi o'r swydd ddisgrifiad a'r ffurflenni cais.
4. Cynorthwyo a stiwardio mewn unrhyw wyl/ddigwyddiad cenedlaethol.
5. Ymateb i unrhyw gais arall gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

## **Golygydd y Wawr**

- Cadeirio cyfarfodydd Is-bwyllgor y Wawr yn Aberystwyth.
- Cysylltu ag unigolion i ofyn am gyfraniadau – yn dilyn awgrymiadau'r Is-bwyllgor gan mwyaf.
- Golygu'r deunydd.
- Ysgrifennu erthyglau, os bydd angen.

- Gyrru'r deunydd wedi'i olygu at y dylunydd, ynghyd ag unrhyw luniau a ddaeth i law.
- Pan fydd gennych syniad go lew o gynnwys y rhifyn, paratoi rhestr gynnwys ar gyfer y dylunydd, gan nodi pa erthygl sy'n mynd ar ba dudalen, ynghyd â pha luniau. (Dyw'r rhestr hon ddim yn ddeddfol.)
- Darllen a chywiro'r pdfs a anfonir atoch gan y dylunydd.
- Cysylltu â'r wasg i ofyn am y dyddiad cau, a hysbysu'r dylunydd.
- Darllen y profleuni a ddaw o'r wasg, a'i hysbysu am unrhyw gywiriadau
- Ar ôl y dyddiad cyhoeddi, anfon copi i'r cyfranwyr nad sy'n aelodau o Ferched y Wawr. Anfon copi i'r Llywydd Anrhydeddus.
- Os oes cystadlaethau, dosbarthu'r gwobrau.
- Anfon rhestr o'r cyfranwyr, eu cyfeiriadau a'r symiau sy'n ddyledus iddynt i'r Ganolfan yn Aberystwyth.
- Anfon rhestr o'ch costau i'r Ganolfan, sef £375 (£325 + £50 am y ffôn) + costau postio + manylion teithio.
- Paratoi adroddiad i'r Cyngor Llyfrau unwaith y flwyddyn (tua mis Hydref) ar gyfer y cais am grant.
- Mynychu a pharatoi adroddiadau ar gyfer y Pwyllgorau Llywio/Rhanbarthol.
- Mynychu pwyllgorau'r Wawr
- Y cyfarwyddwr a'r golygydd yn gofyn am amcan brisiau i gyhoeddi'r Wawr bob tair blynedd ac yn cynnig y rhain i'r Pwyllgor Llywio

## **Llywydd Gŵyl A Hamdden**

### **Llywydd Iaith a Gofal**

1. Cadeirio cyfarfodydd yr Is-bwyllgor- dau y flwyddyn - Hydref a Chwefror
2. Trafod Agenda gyda'r ysgrifennydd cyn cyfarfod
3. Eistedd ar y Pwyllgorau Cenedlaethol – Llywio, Rhynganbarthol a.y.b.
4. Ymateb i faterion a godwyd yn yr Is-bwyllgor
5. Cyflwyno adroddiad o weithgareddau'r Is-bwyllgor ar gyfer Pwyllgorau Llywio a Rhynganbarthol
6. Trefnu seremoni Gwobrwyo'r Dysgwyr yn yr Ŵyl Haf. – beirniad, telynor a.y.b. gyda'r swyddfa
7. Arwain Seremoni'r Dysgwyr yn yr Ŵyl Haf.
8. Cynorthwyo mewn gweithgareddau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Llanellwedd a.y.b. yw'n bosib.
9. Dirprwyo dros Swyddogion y Mudiad mewn cyfarfodydd rhanbarthol os bydd gofyn

10. Dod ag unrhyw fater perthnasol i'r Iaith a Gofal at sylw'r Cyfarwyddwr a'r Pwyllgor Llywio

### **Is- Lywydd Cenedlaethol**

- (i) Cefnogi'r llywydd, y cyfarwyddwr, y swyddogion a'r staff.
- (ii) Mynychu'r gwyliau a'r Penwythnos Preswyl fel y gall.
- (iii) Mynychu cyfarfodydd cenedlaethol a chynrychioli'r mudiad pan yn gyfleus. Dirprwyo ar ran y llywydd/cyfarwyddwr pan fydd angen.
- (iv) Bod yn aelod o'r Pwyllgor Llywio ac yn Ymddiriedolwr y Mudiad am bedair blynedd (tra'n is-lywydd a llywydd)
- (v) Bod yn gyfrifol am farchnata a hysbysebu'r Mudiad gyda'r cyfarwyddwr

### **DYLETSWYDDAU YMARFEROL**

- (i) Aelod o'r Pwyllgor Llywio. (6-7 cyfarfod mewn blwyddyn – weithiau llai!!)
- (ii) Aelod o'r Is-bwyllgor Cyllid. (2 gyfarfod y flwyddyn.)
- (iii) Beirniadu'r rhaglen orau gyda'r Is-ysgrifennydd Cenedlaethol ar gyfer yr Ŵyl Haf.
- (iv) Llywio/arwain y gystadleuaeth adloniant yn yr Ŵyl haf.

### **Is-Drysoydd Cenedlaethol**

1. Cefnogi'r trysorydd a dirprwyo pan fydd angen
2. Gwirio ffurflenni incwm a gwariant – Tachwedd a Chwefror
3. Mynychu'r Penwythnos
4. Mynychu'r gwyliau fel y gall
5. Gorchwyllo oriau gwaith y staff
6. Aelod o'r Pwyllgor Llywio ac yn Ymddiriedolwr y mudiad

### **Is-Ysgrifennydd Cenedlaethol**

1. Cofnodi cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cyllid Cenedlaethol.
2. Cofnodi unrhyw bwyllgor (Llywio, Rhynggranbarthol a'r Cyfarfod Blynyddol) yn absenoldeb yr Ysgrifennydd Cenedlaethol.
3. Beirniadu cystadleuaeth rhaglenni blynyddol canghennau/clybiau'r mudiad ar y cyd â'r Is-lywydd Cenedlaethol.
4. Cynorthwyo a stiwardio mewn unrhyw ŵyl/ddigwyddiad cenedlaethol.
5. Ymateb i unrhyw gais arall gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

### **Is-Olygydd y Wawr**

#### **Rhaglen Waith Flynyddol : - Cyfarwyddwr:**

- Gweithio mewn cydweithrediad a Phwyllgor Llywio Merched y Wawr yn Genedlaethol wrth ddatblygu ac adolygu strategaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg
- Rheoli, blaenoriaethu a gweinyddu gweithgareddau Merched y Wawr o ddydd i ddydd
- Rheoli Staff y Mudiad

- Ymchwilio a pharatoi ar y cyd gyda'r swyddog grantiau a thrysorydd y mudiad ceisiadau ynglŷn â nawdd ar gyfer Merched y Wawr, ac i fod yn gyfrifol am y gwaith o gyrraedd pa dargedau sydd angen er mwyn sicrhau nawdd pellach yn y dyfodol
- Goruchwyllo Cynhyrchu a datblygu deunydd hyrwyddo, cymryd rhan mewn gweithgareddau marchnata, diwrnodau agored, a gwneud cyfweiliadau gyda'r Wasg
- Cysylltu â grwpiau gweithgareddau Cymraeg
- Cymell merched sy'n siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan ehangach mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg e.e. hamdden, addysg a chyfleoedd gwaith
- Cysylltu â grwpiau gweithgareddau Cymraeg e.e. Yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, RHAG, Twf ayyb
- Cefnogi Pwyllgorau Rhanbarthol fel y bo'n briodol
- Mynychu cyfarfodydd canghennau/clybiau pan fo angen
- Mynychu cyfarfodydd Partneriaid Cenedlaethol
- Bod yn gyfrifol am ddatblygiad Ariannol Merched y Wawr ac ysgrifennu ceisiadau neu adroddiadau ariannol mewn cydweithrediad ag eraill pan fo angen.
- Hysbysebu gweithgareddau drwy e bost, cyfryngau, papurau lleol a dosbarthu posteri
- Sicrhau fod y mudiad yn anfon gwybodaeth a lluniau cyson i'r papurau am gychwyn a llwyddiant ein gweithgareddau/clybiau/digwyddiadau
- Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr i gymdeithasu ar bob lefel yn gymdeithasol
- Gwneud adroddiad ar ôl pob cynllun/digwyddiad ar ddiwedd pob cyfnod o adrodd yn ôl ar gynllun nawdd.

## **CALENDR GWAITH MALVINA LEY**

### **Medi**

Atgoffa aelodau'r pwyllgor rhanbarth i anfon deunydd diddorol at gynrychiolydd y rhanbarth ar is-bwyllgor Y Wawr yn ystod y flwyddyn. Gwasanaethu yn y Penwythnos Preswyl. Dosbarthu dyddiaduron a chardiau Nadolig. Mynychu pwyllgor rhanbarth ac atgoffa'r ysgrifenyddion bod angen tri chopi o raglenni'r canghennau ar ysgrifennydd y rhanbarth. Cynnig gwybodaeth am gystadlaethau'r Ffair Aeaf. Trafod manylion y Cwis Hwyl. Ysgrifennu adroddiad Chwefror - Hydref i'r cyfarfod Rhyngranbarthol.

### **Hydref**

Cyfarfodydd yr Is-bwyllgorau. Mynychu'r cyfarfod Rhyngranbarthol. Cynorthwyo i drefnu'r Cwis Hwyl yn y Rhanbarth.

### **Tachwedd**

Gwasanaethu yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol. Casglu eitemau i'r Ffair Aeaf os bydd angen Mynychu'r Ffair Aeaf. Mynychu Pwyllgor Rhanbarth. Paratoi Targedau Bwrdd Yr Iaith Hydref/Tachwedd/Rhagfyr.

### **Rhagfyr**

Cynnig gwybodaeth am y cyrsiau crefft cenedlaethol. Cynnig gwybodaeth am Ginio'r Llywydd yn y De.

### **Ionawr**

Paratoi adroddiad Hydref - Chwefror ar gyfer y cyfarfod Rhynggranbarthol Mynychu Pwyllgor Rhanbarth. Mynychu cwrs crefft y De.

### **Chwefror**

Cyfarfodydd yr Is-bwyllgorau. Mynychu'r cyfarfod rhynggranbarthol Paratoi Targedau Ionawr/Chwefror/Mawrth.

### **Mawrth**

Mynychu Cinio'r Llywydd yn y De. Paratoi adroddiad blynyddol. Gwasanaethu yn Eisteddfod Sir Yr Urdd.

### **Ebrill**

Cynnig gwybodaeth am yr Ysgol Breswyl – dyddiad a lleoliad. Mynychu Pwyllgor Rhanbarth. Mynychu gweithgaredd rhanbarthol a threfnu cynnal cystadlaethau. Sioe Llanelwedd yn y rhanbarth. Atgoffa'r Swyddfa am ffurflenni swyddogion newydd i'r canghennau.

### **Mai**

Mynychu'r Cyfarfod Blynyddol. Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd. Paratoi Targedau Ebrill/Mai/Mehefin. Atgoffa'r canghennau i ddychwelyd ffurflenni swyddogion newydd.

### **Mehefin**

Mynychu cyfarfod staff

### **Gorffennaf**

Sioe Llanelwedd

### **Awst**

Paratoi Targedau Gorffennaf/Awst/Medi. Yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfrif stoc.

- Mynychu cyfarfodydd staff
- Ymweld â'r canghennau
- Mynychu pwyllgor Llywio
- Mynychu Fforymau Iaith Abertawe a Nedd/Port Talbot
- Cynnal cyfarfodydd i drefnu Eisteddfod/ Sioe Llanelwedd pan fydd un yn y Rhanbarth

## **CALENDR GWAITH MIM ROBERTS**

### **Medi**

Mynychu pwyllgorau rhanbarth - Aberconwy/Arfon/Maldwyn-Powys/Meirionnydd a Môn. Dosbarthu cardiau Nadolig a dyddiaduron a sicrhau fod pob cangen yn arwyddo amdanynt. Mynychu Penwythnos Preswyl. Mynychu cyfarfod os bydd un o'r gwyliau cenedlaethol yn taro ar un o'r rhanbarthau - Eisteddfod yr Urdd/Sioe Llanelwedd/Eisteddfod Genedlaethol. Paratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Rhynggranbarthol diwedd y mis (Chwefror i Hydref). Atgoffa'r rhanbarthau wrth ymweld i anfon deunyddiau ar gyfer Y Wawr i'w cynrychiolydd rhanbarth. Gofyn am y rhaglenni yn y pwyllgorau rhanbarth.

### **Hydref**

Mynychu is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden a Phwyllgor Rhyngghanbarthol yn Aberystwyth. Mynychu Gŵyl Rhanbarth Meirionnydd. Mynychu Twrnament Bowlïo Deg Aberconwy yn Llandudno. Mynychu pwyllgor rhanbarth Dwyfor

### **Tachwedd**

Mynychu'r Cwis Hwyl yn un o'r rhanbarthau. Mynychu Pwyllgor rhanbarth Arfon/Aberconwy/Meirionnydd a Môn. Trefnu I gasglu eitemau ar gyfer y Ffair Aeaf os bydd rhaid. Trefnu I osod yn y Ffair Aeaf a gweithio yno un diwrnod a helpu i glirio. Targedau'r Bwrdd ar gyfer Hydref/Tachwedd/Rhagfyr i fod yn y swyddfa erbyn Rhagfyr 2ail.

### **Rhagfyr**

Mae'r rhanbarthau yn cynnal eu gwasanaethau Nadolig dechrau'r mis. Paratoi rhestr awgrymiadau siaradwyr i'r canghennau fel bod modd eu dosbarthu yn y pwyllgor rhanbarth Ionawr/Ebrill

### **Ionawr**

Mynychu Pwyllgor rhanbarth Arfon/Aberconwy/Dwyfor/Maldwyn-Powys a Môn. Mynychu Pwyllgor Sioe Sir Meirion. Mynychu Bowlïo Deg Arfon a Dwyfor. Gwneud yn siŵr fod pob rhanbarth wedi llogir adeilad ar gyfer y Cwis Hwyl. Cyd-weithio â Elizabeth ar gyfer y chwaraeon cenedlaethol. Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Rhyngghanbarthol (Hydref i Chwefror), Paratoi adroddiad ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol.

### **Chwefror**

Cwrs Crefft y Gogledd. Is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden yn Aberystwyth. Bowlïo Deg Meirionnydd. Mynychu noson wedi ei threfnu gan is-bwyllgor Iaith a Gofal Maldwyn-Powys ar gyfer y Dysgwyr. Mynychu pwyllgor y gwyliau cenedlaethol. Twrnament y 4 rhanbarth - Arfon/Aberconwy/Dwyfor a Meirionnydd. Mynychu Pwyllgor Rhyngghanbarthol. Noson Chwaraeon Dwyfor. Targedau'r Bwrdd Ionawr/Chwefror/Mawrth i mewn erbyn Mawrth 1af.

### **Mawrth**

Chwaraeon Maldwyn-Powys.

### **Ebrill**

Gŵyl Wanwyn Dwyfor. Chwaraeon Aberconwy. Cinio Llywydd y Gogledd. Mynychu Pwyllgor rhanbarth Arfon/Aberconwy/Dwyfor/Maldwyn-Powys/Meirionnydd a Môn. Chwaraeon Arfon. Pwyllgor y gwyliau cenedlaethol. Chwaraeon Meirionnydd. Trefnu dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyrsiau crefft ar gyfer yr hydref os bydd angen yn y rhanbarthau. Gadael i'r pwyllgor rhanbarth wybod dyddiad a lleoliad y Penwythnos Preswyl. Atgoffa'r rhanbarthau fod angen gwybodaeth swyddogion newydd ar gyfer y tymor nesa yn y swyddfa erbyn Mai fel bod y wybodaeth ar gael ar gyfer y dyddiaduron.

### **Mai**

Mynychu Gŵyl y Pum Rhanbarth. Rowndiau badminton/tennis bwrdd Meirionnydd. Mynychu noson is-bwyllgor Celf a Chrefft Arfon. Cyfarfod blynyddol a'r Wyl Haf ym Machynlleth. Cyfarfod hefo'r ardal sy'n gyfrifol am Sioe Sir Meirion i drefnu arddangosfeydd a gweithio rota allan. Trefnu i osod y babell yn Eisteddfod Yr Urdd a gweithio pryd bydd angen, a helpu i glirio ddiwedd yr wythnos. Targedau'r Bwrdd Ebrill/Mai/Mehefin i fod mewn erbyn Mehefin 1af.

### **Mehefin**

Mynychu Ffair Haf Aberconwy. Mynychu gweithgaredd rhanbarth Arfon. Ymweld â rhai canghennau i drefnu rhaglen ac os bydd angen yn ei theipio iddynt (wedi'r gangen gael cadarnhad o'u digwyddiadau)

### **Gorffennaf**

Trefnu gyda'r rhanbarthau i gludo eitemau lawr i'r Sioe os bydd angen. Trefnu i osod safle MYW yn y Sioe, gweithio fel bo angen a helpu i glirio ddiwedd yr wythnos (os yn

berthnasol). Llogi Glan-llyn ar gyfer bowlïo Maldwyn-Powys a Llandudno ar gyfer bowlïo Aberconwy. Trefnu hefo Einir Wyn dyddiadau ar gyfer bowlïo Arfon a Dwyfor

#### **Awst**

Trefnu i osod pabell MYW yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gweithio fel bo angen a helpu i glirio ddiwedd yr wythnos (os yn berthnasol). Mynychu Sioe Llanrwst, Môn a Meirionnydd Anfon llythyrau allan i'r canghennau i atgoffa am y cyfarfodydd rhanbarth ym mis Medi a gofyn iddynt am y rhaglenni, ac os oes unrhyw ddigwyddiad yn ystod yr hydref, rhoi gwybod iddynt. Cael popeth i drefn – ffeilio ag ati ar gyfer y flwyddyn newydd. Rhestr stoc i'r swyddfa. Targedau'r Bwrdd Gorffennaf/Awst/Medi i fod mewn erbyn Medi 1af.

Rwyf hefyd yn mynychu'r canlynol fel bo'r galw:

- Pwyllgor Staff
- Pwyllgor Llywio
- Fforymau Sirol
- Partneriaid Y Bwrdd
- Cynnal nosweithiau o fewn y canghennau

### **CALENDR GWAITH ANWEN WILLIAMS**

#### **Medi**

Mynychu pwyllgor rhanbarth Colwyn. Dosbarthu archebion i'r canghennau.

Mynychu'r Penwythnos Preswyl a chynorthwyo yn ôl y galw.

Dechrau paratoi os bydd un o'r Gwyliau Cenedlaethol yn ymweld ag un o'r rhanbarthau.

Rhannu gwybodaeth i'r canghennau am drefniadau "Llith a Charol"

Paratoi adroddiad Rhynganbarthol.

#### **Hydref**

Mynychu pwyllgor rhanbarth Glyn Maelor. Dosbarthu archebion i'r canghennau.

Mynychu Is-bwyllgor Iaith a Gofal a Phwyllgor Rhynganbarthol yn Aberystwyth.

Mynychu Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych.

Atgoffa a chadarnhau trefniadau'r Cwis Hwyl

#### **Tachwedd**

Mynychu pwyllgor y babell sioe Dinbych a Fflint.

Ymuno ag un o'r ddau ranbarth yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol.

Casglu eitemau i'r Ffair Aeaf os bydd angen. Mynychu'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd cynorthwyo fel bo'r galw

Mynychu Cwrs Crefft rhanbarth Colwyn

Paratoi Targedau Hydref/Tachwedd/Rhagfyr

Rhannu gwybodaeth am Gwrs Crefft y Gogledd a Chinio'r Llywydd

#### **Rhagfyr**

Trefnu a chynnal gwasanaeth "Llith a Charol" yn rhanbarth Colwyn a Glyn Maelor

#### **Ionawr**

Paratoi adroddiad Rhynganbarthol

Atgoffa am gystadlaethau Chwaraeon y Rhanbarth - dyddiad, lleoliad a.y.b.

Mynychu pwyllgorau rhanbarth Colwyn a Glyn Maelor

Mynychu cyfarfod trefniadau a pharatoadau un o'r Gwyliau Cenedlaethol (os yn berthnasol i'r rhanbarthau)

#### **Chwefror**

Mynychu Is-bwyllgor Iaith a Gofal a Phwyllgor Rhynganbarthol yn Aberystwyth

Mynychu Cwrs Crefft y Gogledd

Paratoi Targedau Ionawr/Chwefror/Mawrth

**Mawrth**

Cystadlaethau chwaraeon y rhanbarthau (ambell flwyddyn)

Paratoi adroddiad Blynyddol

**Ebrill**

Chwaraeon rhanbarth Colwyn a Glyn Maelor

Mynychu bore o weithgareddau i'r Dysgwyr gan ranbarth Colwyn.

Pwyllgor Y Babell sioe Dinbych a Fflint

Pwyllgorau rhanbarth Colwyn a Glyn Maelor

Cinio'r Llywydd Cenedlaethol Y Gogledd - cynorthwyo yn ôl y galw

Pwyllgor y Gwyliau Cenedlaethol (os yn berthnasol)

Gwneud trefniadau dyddiad a lleoliad "Llith a Charol"

Paratoi rhestr awgrymiadau siaradwyr a.y.b. i'r canghennau ar gyfer rhaglen y tymor nesaf.

Rhannu gwybodaeth y Penwythnos Preswyl

**Mai**

Mynychu Gŵyl Ranbarth Colwyn a Glyn Maelor a chystadlaethau Sioe Llanelwedd

Mynychu'r Cyfarfod Blynyddol a'r Wyl Haf ym Machynlleth---cynorthwyo yn ôl y galw  
Cynorthwyo canghennau i baratoi rhaglen y tymor nesaf yn ôl y galw.

Pan yn berthnasol trefnu i baratoi a gosod y babell yn Eisteddfod Yr Urdd, cynorthwyo  
gydol yr wythnos a chlirio ar y diwedd.

Paratoi Targedau Ebrill/Mai/Mehefin

**Mehefin**

Helfa Drysor wedi ei drefnu gan is-bwyllgor Chwaraeon Colwyn

Mynychu noson Celf a Chrefft Colwyn pryd y cynhelir cystadlaethau Sioe Llanelwedd

Atgoffa am ffurflenni Swyddogion y canghennau

**Gorffennaf**

Mynychu pwyllgor sioe Dinbych a Fflint.

Mynychu Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ym mhabell Partneriaeth Sir Ddinbych.

Trefnu i gasglu eitemau i Sioe Llanelwedd os bydd angen

Pan yn berthnasol trefnu i baratoi a gosod y safle yn Y Sioe yn Llanelwedd, gofalu a  
chynorthwyo gydol yr wythnos a chlirio ar y diwedd.

**Awst**

Pan yn berthnasol--- trefnu i baratoi a gosod y Babell yn yr Eisteddfod Genedlaethol ,  
cynorthwyo a chlirio ar y diwedd.

Mynychu Sioe Dinbych a Fflint -cynorthwyo i baratoi'r babell ac ar y diwrnod. Clirio ar  
ddiwedd y dydd.

Hysbysu'r canghennau am ddigwyddiadau i ddod yn y tymor newydd. Atgoffa i anfon y  
rhaglenni i mi.

Cyfrif stoc nwyddau

Paratoi Targedau Mehefin/Gorffennaf/Awst

**Gweithgareddau a digwyddiadau achlysurol eraill y byddaf yn eu mynychu**

Pwyllgorau Staff

Pwyllgorau Llywio

Hyfforddiant

Trefnu Tapio'r Wawr

Cyfarfodydd Mentrau Iaith

Partneriaid Bwrdd Yr Iaith

Ymweld â'r Canghennau yn eu tro a chynnal gweithgareddau os bydd angen  
Ymweld â dosbarthiadau Dysgwyr - cyflwyno gwybodaeth am y Mudiad iddynt  
Unrhyw weithgaredd arall a drefnir gan y rhanbarthau

## **CALENDR GWAITH ELIZABETH EVANS**

### **Medi**

Cysylltu â swyddogion y ddau ranbarth ac is-bwyllgor Celf a Chrefft Ceredigion i drafod agenda pwyllgorau cyntaf y flwyddyn. Dosbarthu dyddiaduron, cardiau etc. i'r canghennau/clybiau a'u hatgoffa am gasglu "Y Wawr" yn brydlon bob chwarter. Paratoi adroddiad i'r pwyllgor rhynggranbarthol. Cynorthwyo yn ystod y Penwythnos Preswyl. Rhoi sylw i faterion fydd angen eu trafod yn yr Is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden y mis nesaf. Sicrhau bod manylion trip Ceredigion yn eu lle ac ymuno ar y diwrnod. Cychwyn trefniadau gwyliau cenedlaethol os yn berthnasol. Atgoffa ac annog yr aelodau gystadlu yn y Ffair Aeaf.

### **Hydref**

Mynychu pwyllgor rhynggranbarthol ac is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden a dwyn materion i'w trafod. Cael rhestr o syniadau ar gyfer cystadlaethau Sioe Llanelwedd yn barod os mai cyfrifoldeb un o'r ddau ranbarth fydd y sioe ymhen dwy flynedd. Cadarnhau lleoliad, trefniadau a bwyd y Cwis Hwyl

### **Tachwedd**

Mynychu'r Cwis Hwyl - Ceredigion a Penfro am yn ail flwyddyn. Trefnu dyddiadau a lleoliad cystadlaethau chwaraeon ac adloniant rhanbarthol. Casglu eitemau i'r Ffair Aeaf, mynychu a chynorthwyo pan fydd angen. Hyrwyddo'r mudiad yn yr Ŵyl Cerdd Dant pan fydd yn yr ardal. Mynychu pwyllgorau rhanbarth Ceredigion a Penfro a'r Celf a Chrefft. Paratoi targedau Bwrdd yr Iaith am y cyfnod Hydref - Rhagfyr. Hyrwyddo cystadlaethau'r dysgwyr ar gyfer mis Mai.

### **Rhagfyr**

Llogi man cynnal Cwis Hwyl (os bydd y dyddiad yn hysbys). Hybu cyrsiau Crefft a chinio'r Llywydd. Ymuno ag ambell gangen yn eu gweithgaredd Nadolig.

### **Ionawr**

Cychwyn paratoadau'r chwaraeon cenedlaethol efo Mim. Cwrs Crefft undydd y de. Paratoi adroddiad i'r pwyllgor Rhynggranbarthol mis Chwefror.

### **Chwefror**

Mynychu pwyllgorau rhanbarth Ceredigion a Penfro a phwyllgor Celf a Chrefft Ceredigion. Paratoi targedau Bwrdd yr Iaith am y cyfnod Ionawr – Mawrth a'r un i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y mudiad. Mynychu nosweithiau cystadlaethau chwaraeon Ceredigion. Chwilio am stiwardiaid o blith yr aelodau ar gyfer Eisteddfodau rhanbarth yr Urdd.

### **Mawrth**

Cynorthwyo yng nghinio'r Llywydd yn y de. Mynychu chwaraeon Penfro (gall hyn ddigwydd y mis yma neu ym mis Ebrill). Cydweithio yn Eisteddfodau'r Urdd.

### **Ebrill**

Mynychu pwyllgorau rhanbarth a Chelf a Chrefft Ceredigion. Os bydd un o'r ddau ranbarth yn gyfrifol am un o'r gwyliau cenedlaethol y flwyddyn ganlynol cychwyn ar y broses o baratoi ar ei chyfer. Cael awgrymiadau am gystadlaethau i'r sioe. Cyflwyno tarian cynnydd aelodaeth Ceredigion. Cychwyn y broses o gael is-swyddogion i'r gwahanol bwyllgorau os nad oes rhai yn eu lle yn barod. Atgoffa'r canghennau/clybiau am

gynnal eu cyfarfodydd blynyddol fel bod y Ganolfan yn derbyn enwau'r swyddogion newydd yn brydlon. Tynnu sylw'r aelodau i'r Penwythnos Preswyl.

### **Mai**

Sicrhau bod ffurflenni'r Sioe ac enwau'r swyddogion newydd yn cyrraedd y Ganolfan. Annog yr aelodau i archebu dyddiaduron a chardiau Nadolig mewn da bryd. Mynychu Gŵyl Fai Ceredigion gan gynorthwyo a chymryd yr awenau yn ystod y prynhawn. Mynychu pwyllgor rhanbarth Penfro a threfnu tîm i gystadlu yn y Sioe. Paratoi targedau Bwrdd yr Iaith am y cyfnod Ebrill – Mehefin. Mynychu'r Cyfarfod Blynyddol a'r Wyl Haf ac yn gyd-gyfrifol â Mim am y chwaraeon. Llogi lleoliad y golff i'r flwyddyn ganlynol.

### **Mehefin**

Cyfarfod â thimau o'r ddau ranbarth sy'n cystadlu yn Llanelwedd. Ymateb i alwadau di-ri pan fo canghennau yn trefnu rhaglenni'r flwyddyn i ddod. Cynnig syniadau ac enwau a pharatoi ambell raglen.

### **Gorffennaf**

Pan fo Ceredigion neu Penfro yn gyfrifol am y Sioe cydweithio i osod y safle, bod ar ddyletswydd gydol yr wythnos a chlirio ar ddiwedd y cyfnod. Cludo eitemau o'r ddau ranbarth i Lanelwedd, helpu i'w gosod a'u cludo yn ôl os bydd angen.

### **Awst**

Mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol a chynorthwyo ar y Dydd Mercher pan gynhelir seremoni urddo'r Llywydd newydd a'r te croeso. Eto pan gynhelir yr Eisteddfod o fewn i un o'r ddau ranbarth bydd y cyfrifoldebau arferol yn disgyn arnaf. Cylchlythru canghennau/clybiau i'w hatgoffa am ddod â'u rhaglenni i'r pwyllgor rhanbarth ym mis Medi. Paratoi targedau Bwrdd yr Iaith am y cyfnod Gorffennaf – Medi. Cyfrif stoc nwyddau a'i anfon i'r Ganolfan. Paratoi rhaglen i ambell gangen.

### Yn ystod y flwyddyn byddaf hefyd yn mynychu:-

- |            |   |
|------------|---|
| Pwyllgorau | - Staff                                       |
|            | - Llywio (yn fy nhro)                         |
|            | - Fforymau Iaith y ddau ranbarth.             |
|            | - Fforwm 50+ Ceredigion.                      |
|            | - Cyfarfodydd Llywodraethwyr Coleg Ceredigion |
|            | - Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Penfro.     |
|            | - Digwyddiadau Wythnos Cymraeg yn Gyntaf.     |
|            | - Cynrychioli'r mudiad mewn cyfarfodydd.      |
|            | - Anfon adroddiadau i'r Wasg.                 |
|            | - Adroddiad misol ar Radio Ceredigion.        |
|            | - Ymweld â changhennau a chynnal ambell noson |
|            | - Ymateb i alwadau ffôn                       |
|            | - Cysylltu â phob cangen /clwb.               |

## **CALENDR GWAITH YVONNE DAVIES GRODZICKA**

### **Medi**

Mynychu Pwyllgor Rhanbarth, dosbarthu cardiau Nadolig a'r dyddiaduron, mynychu Fforwm sirol, penwythnos preswyl, cydweithio gydag wythnos Gymraeg yn gyntaf.

### **Hydref**

